



Teledu Cylch Cyfyng Cod Arferion

Diweddarwyd: Mawrth 2013

1 Cyflwyniad ac Amcanion

1.1 Cyflwyniad

Mae system TCC (Teledu Cylch Cyfyng) wedi cael ei osod ym Maes Awyr Caerdydd Cyfyngedig (a gyfeirir ato o hyn allan fel y 'Maes Awyr') gan ariannu ar y cyd rhwng y Maes Awyr, yr Heddlu a Llu Ffiniau'r DU (LIFfDU). Mae system TCC Maes Awyr Caerdydd yn cynnwys tua 116 camera, gan gynnwys rhai sefydlog/statig a'r math tremio, gwyro a chlosio (TGC), sy'n darparu lluniau o ardaloedd mewnol (y derfynfa, gan gynnwys ardaloedd trin bagiau,) ac allanol (y ffedog, ardaloedd carwsél bagiau'n cyrraedd, adran dân yr ochr ddeheuol a phob lleoliad Rhan Allweddol, cyrtiau gwasanaeth/nwyddau, a pharthau gollwng) y maes awyr.

Defnyddir rhai camerâu gan Reolaeth y Ffedog a Rheolaeth Traffig yr Awyr (RhTA) i gynorthwyo i reoli awyrennau, gwasanaethau'r ffedog, clustnodi arosfa ayyb, yn effeithlon. Bydd data a recordir oddi ar y camerâu yma, er hynny, yn cael ei brosesu yn unol â'r Cod Arferion yma.

Cyflwynir delweddau TCC ar fonitorau yn yr Ystafell Reoli Gweithrediadau Diogelwch ac fe'u recordir yn ddigidol. Recordir y delweddau ar (leiafswm o) un ffrâm yr eiliad trwy gydol cyfnod cyfan o 24 awr.

Mae'r system TCC wedi'i chysylltu â Heddlu De Cymru/ Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru a LIFfDU sy'n cynnal adnoddau arolygu eilaidd yn Ystafell Reoli TCC ym Maes Awyr Caerdydd ond nid ydynt yn recordio'r delweddau eu hunain, er bod modd iddynt gael recordiadau gan y Maes Awyr.

Ar gyfer y ddogfen hon, 'perchennog' y system yw Maes Awyr Caerdydd Cyf.

Ar gyfer Deddf Diogelu Data 1998, Rheolwr y Data yw Maes Awyr Caerdydd Cyf.

Dangosir manylion y personél allweddol, eu dyletswyddau a manau cyswllt yn Atodiad A.

1.2 Amcanion y System

1.2.1 Hysbyswyd y Comisiynydd Gwybodaeth am amcanion y Maes Awyr wrth weithredu TCC. Sef:

Amcanion Gweithredol:

Llif a rheolaeth traffig.

Cerbydau wedi'u gadael neu eu gadael ar ôl.

Symudiadau Traffig Awyr ar yr esgynfa, atredfeydd ayyb.

Symudiadau cerbydau / offer arall ar yr esgynfa, atredfeydd ayyb.

Llif teithwyr.

Rheoli safonau ansawdd.

Rheoli ciwiau.

Cydymffurfio ac arolygu rheoleiddiol y Maes Awyr a'r Llywodraeth.

Amcanion Diogelwch (1):

Diogelwch y cyhoedd.

Diogelwch gweithwyr.

Amddiffyn staff a theithwyr rhag ymosodiad.

I amddiffyn staff (e.e. Staff Diogelwch) rhag honiadau o ymosod neu ymddygiad amhriodol.

Amcanion Diogelwch (2):

Symudiadau teithwyr.

Gweithredu rheolau diogelwch Yr Adran Drafnidiaeth a'r Swyddfa Gartref.

Symudiadau cerbydau / offer.

Bagiau i'w casglu.

Amcanion Gweithredu'r Gyfraith:

Gorfodaeth yr asiantaeth Ffiniau / y Llywodraeth.

Atal troseddau.

Olrheinio troseddau.

Dal ac erlyn troseddau.

Achosion llys / tystiolaethol.

- 1.22** O fewn yr amlinell fras yma, mae Rheolwr Gyfarwyddwr Maes Awyr Caerdydd Cyf, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Llu Ffiniau'r DU, ac ICTS, wedi llunio a chyhoeddi'r amcanion penodol yma a seiliwyd ar bryderon lleol; byddant yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

1.3 Llawlyfr Gweithredu

Mae Llawlyfr Gweithredu ar wahân, sy'n darparu cyfarwyddiadau ar sut i weithredu'r system, yn atodiad i'r Cod Arferion yma. I sicrhau fod amcanion ac egwyddorion y system TCC yn cael eu gwireddu (gweler Adran 2), seilir y Llawlyfr Gweithredu ar gynnwys y Cod Arferion.

2. Datganiad Diben ac Egwyddorion

2.1 Diben

Diben y ddogfen hon yw datgan bwriad y perchnogion a'r rheolwyr, ar ran y bartneriaeth yn ei chyfanrwydd ac i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, i gefnogi amcanion system TCC Maes Awyr Caerdydd, ac i amlinellu sut y bwriedir gwneud hynny.

2.2 Egwyddorion Cyffredinol

2.2.1 Bydd y system TCC yn cael ei gweithredu'n deg, o fewn y gyfraith, ac yn unig ar gyfer y diben y'i sefydlwyd neu a gytunir ar ôl hynny yn unol â'r Cod Arferion yma.

2.2.2 Bydd y system TCC yn cael ei gweithredu gyda sylw dyledus i hawliau'r unigolyn, deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a dulliau gweithredu'r maes awyr. Rhoddir sylw arbennig i fwriad deddfwriaeth gyfredol, e.e. y Ddeddf Diogelu Data, Deddf Hawliau Dynol, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

2.2.3 Bydd budd y cyhoedd yn cael ei gydnabod wrth weithredu'r system TCC drwy sicrhau diogelwch ac uniondeb dulliau gweithredu.

2.2.4 Drwyddi draw yn y Cod Arferion yma bwriedir, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, cydbwysu dibenion y system TCC gyda'r angen i ddiogelu hawliau'r unigolyn. Gwnaed pob ymdrech drwyddi draw yn y Cod Arferion i ddangos fod strwythur ffurfiol wedi'i osod, gan gynnwys trefn gwynion, strwythur y bydd modd dynodi fod y system TCC nid yn unig yn atebol ond hefyd ei fod yn cael ei weld i fod yn atebol.

2.2.5 Mae cyfranogi yn y system gan sefydliad, unigolyn neu awdurdod, yn tybio fod cytundeb gan y cyfryw bartion i gydymffurfio'n llwyr gyda'r Cod Arferion ac i fod yn atebol iddo.

2.3 Hawlfraint

Bydd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf yn cadw hawlfraint a pherchnogaeth yr holl ddeunydd a recordir yn rhinwedd y system TCC.

2.4 Camerâu a Chwmpas Ardal

2.4.1 Mae'r ardaloedd a gwmpasir gan y TCC y mae'r Cod Arferion yma'n cyfeirio atynt yn cynnwys yr ardaloedd cyhoeddus a phreifat, yn fewnol ac yn allanol, sydd o dan gyfrifoldeb Maes Awyr Caerdydd Cyf, bydd defnyddio'r system TCC a'r data a gynhyrchir yn rhinwedd ei defnyddio, bob amser yn cydsynio gyda dibenion y system TCC.

2.4.2 Bydd rhai o'r camerâu yn cynnig nodweddion tremio, gwyro a chlosio (TGC); camerâu sefydlog/statig yw'r lleill. Mae pob camera yn darparu delweddau lliw; mae rhai yn newid yn awtomatig i ddu a gwyn pan fo'r golau'n wan.

2.4.3 Ni osodir yr un camera a fydd yn rhan o'r system mewn dull dirgel.

2.5 Adnoddau Arolygu a Recordio

- 2.5.1 Mae'r system TCC yn cael ei harolygu fesul 24 awr gan staff diogelwch yn Ystafell Reoli Gweithrediadau Diogelwch. Mae'r gallu gan yr offer TCC i recordio pob camera ar yr un pryd drwy gydol pob cyfnod o 24 awr. Yn gyffredinol y raddfa recordio yw 1 ffrâm yr eiliad; sut bynnag, wrth i offer recordio mwy soffistigedig gael ei osod, bydd modd cyrraedd graddfeydd uwch.
- 2.5.2 Lleolir offer arolygu eilaidd yn Swyddfeydd Rheoli LIFfDU, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (UEGC), Pennaeth Gweithrediadau'r Derfynfa a Diogelwch (PGDD). Ni fydd unrhyw offer, ar wahân i'r offer a leolir yn Ystafell Offer yr Ystafell Reoli, yn gallu recordio delweddau oddi ar unrhyw gamera.
- 2.5.3 Bydd ail-ddangos a/neu gopiö unrhyw ddata sydd wedi'i recordio yn unol â'r Cod Arferion yma.

2.6 Mynediad heb Ganiatâd

- 2.6.1 Ni chaiff pobl heb ganiatâd fynediad i'r Ystafell Reoli na'r Ystafell Offer os nad oes aelod awdurdodedig o staff yn bresennol.

2.7 Prosesu a Thrin Deunydd wedi'i Recordio

- 2.7.1 Bydd pob deunydd wedi'i recordio yn cael ei brosesu a'i drin yn llwyr yn unol â'r Cod Arferion yma a'r Llawlyfr Gweithredu.

2.8 Newidiadau i'r Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu

- 2.8.1 Bydd unrhyw newidiadau o bwys i'r Cod Arferion a/neu i'r Llawlyfr Gweithredu (megis rhai fydd ag effaith arwyddocaol ar y Cod Arferion neu ar weithredu'r system) yn unig yn digwydd yn dilyn ymgynghori gyda, a gyda chytundeb pob sefydliad sydd â rôl gyfranogol yng ngweithrediad y system.
- 2.8.2 Bydd modd i fân newidiadau (megis rhai angenrheidiol i egluro ac na fydd yn effeithio'n arwyddocaol ar y Cod Arferion nac ar weithredu'r system) gael eu cytuno rhwng y rheolwr a pherchnogion y system.

3. Preifatrwydd a Diogelu Data

3.1 Pryder y Cyhoedd

3.1.1 Er bod mwyafrif aelodau'r cyhoedd efallai yn gyfarwydd â 'chael eu gwyllo', mae'r rhai sy'n datgan pryder yn gwneud hynny yn bennaf ynglŷn â materion sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth/data, h.y. beth sy'n digwydd i'r deunydd a recordiwyd.

D.S. – Mae '**Prosesu**' yn golygu **sicrhau, recordio neu ddal** y wybodaeth/data neu **gyflawni unrhyw weithred neu gyfres o weithrediadau** gyda'r wybodaeth/data, gan gynnwys:

- i. Trefnu, addasu neu newid y wybodaeth/data.
- ii. Adfer, ymgynghori neu ddefnyddio'r wybodaeth/data.
- iii. Datgelu'r wybodaeth/data drwy drosglwyddo, ddosbarthu neu ei ddarparu yn amgen.

NEU

- iv. Alinio, gyfuno, rwystro, ddileu neu ddifa'r wybodaeth/data.

3.1.2 Bydd pob data personol a geir yn rhinwedd y system TCC yn cael ei brosesu yn deg ac yn gyfreithlon ac, yn neilltuol, yn cael ei brosesu yn unig yn yr ymarfer o gyflawni amcanion penodedig y system. Wrth brosesu data personol bydd parch llwyr i hawl pawb i breifatrwydd a bywyd teuluol a'u cartref.

3.1.3 Lle bo'n gymwys, ni fydd camerau yn peryglu preifatrwydd eiddo preifat/preswyl. Os yn bosibl, bydd prosesu data o'r camerau yma yn cael ei ffrwyno, naill ai yn fecanyddol neu drwy 'sgrinio meddalwedd' er mwyn sicrhau na ellir cael data o'r eiddo preifat/preswyl yma.

3.2 Deddfwriaeth Diogelu Data

3.2.1 Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, Pennod 29 Rhan 111, hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am weithredu'r system TCC.

3.2.2 Bydd yr holl ddata yn cael ei brosesu yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data sydd, mewn ffurf gryno, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- i. Bydd pob data personol yn cael ei sicrhau a'i brosesu'n deg ac yn gyfreithlon.
- ii. Cedwir data personol yn unig ar gyfer y dibenion a nodir.
- iii. Defnyddir data personol yn unig at ddibenion y bobl a enwir yn y Cod Arferion yma, ac iddynt hwy yn unig y datgelir y data.
- iv. Dim ond data personol sy'n gymwys a pherthnasol a gedwir, ac sydd heb fod yn anghymesur mewn perthynas ag amcanion cadw'r data.
- v. Bydd mesurau'n cael eu cymryd i sicrhau fod data personol yn gywir a, phan fo angen, yn cael eu diweddarau.
- vi. Ni fydd data personol yn cael eu cadw am fwy o gyfnod na fydd angen.
- vii. Bydd gan unigolion hawl i weld y wybodaeth/data a gedwir amdanynt a, fel bo'n briodol, bydd ganddynt hawl i gywiro neu i ddileu.
- viii. Rhoddir trefn mewn grym i osod mesurau diogelwch fydd yn rhwystro mynediad heb ganiatâd neu ddamweiniol at, addasu, datgelu neu golli a dileu gwybodaeth/data.

3.3 Ceisiadau am Wybodaeth (Hawl Unigolyn i Weld)

- 3.3.1 Cyfeirir unrhyw gais gan unigolyn i ddatgelu data personol y cred ef/hi sydd wedi'i recordio gan y system TCC at y Rheolwr Data. Mae Atodlen E – Sut i Wneud Cais i Gael Gweld Gwybodaeth a Gedwir ar y system TCC yn cynnwys cyfarwyddyd a ffurflen gais.

D.S. Derbynnir ffurflenni cais wedi'u llenwi gan gyfreithiwr yn unig pan fydd llythyr eglurhaol gyda'r ffurflen. Cyfrifoldeb y cyfreithiwr yw cynnal a chofnodi, drwy gyfrwng y ffurflen gais, gwiriad pwy ydyw'r unigolyn. Yr unigolyn sy'n gyfrifol am unrhyw gostau cysylltiedig â chyfarwyddo cyfreithiwr.

- 3.3.2 Dilynir egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data, Pennod 29, Adrannau 7 & 8 (Hawliau Unigolion Data ac Eraill) mewn perthynas â phob cais; atgynhychir yr Adrannau hynny yn Atodlen B.

3.4 Eithriadau rhag Darparu Gwybodaeth

- 3.4.1 Wrth ystyried cais a wneir o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data, Pennod 29 Adran 7, gellir cyfeirio hefyd at Adran 29(1) sy'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r datganiad canlynol:

- i. Data personol a broseswyd ar gyfer unrhyw un o'r dibenion canlynol;
- ii. rhwystro neu ddatrys trosedd;
- iii. restio neu erlyn troseddwyr;

sydd wedi'u heithrio o'r ddarpariaeth hawl unigolyn i weld mewn unrhyw achos i'r fath raddau y byddai'r ymgeisydd am y darpariaethau hynny i'r data yn debygol o wneud niwed i unrhyw un o'r materion a nodir yn yr isadran yma.

D.S. Bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod ac ni weithredir 'eithriadau cynhwysfawr' cyffredinol.

3.5 Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol, 1996

Daeth Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 i rym yn Ebrill 1997 gan gyflwyno fframwaith statudol i ddatgelu i ddiffynyddion ddeunydd na fyddai'r erlyniad yn bwriadu'i ddefnyddio wrth gyflwyno'i achos ei hun (a adwaenir fel deunydd nas defnyddiwyd). Ni ddylid cymysgu datgelu deunydd nas defnyddiwyd â'r rhwymedigaeth a osodir ar y Rheolwr Data gan Adran 7 o'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (a adwaenir fel hawl unigolyn i weld).

4. Atebolrwydd a Gwybodaeth i'r Cyhoedd

4.1 Y Cyhoedd

- 4.1.1 Am resymau diogelwch a chyfrinachedd, cyfyngir ar fynediad i'r Ystafell Reoli a'r Ystafell Offer yn unol â'r Cod Arferion hwn. Er hynny, er mwyn didwylledd ac atebolrwydd, gellir rhoi caniatâd i unrhyw un sy'n dymuno ymweld â'r Ystafell Reoli a/neu'r Ystafell Offer, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth gan, ac wedi gwneud trefniadau blaenorol gyda Swyddog Pennaeth Gwasanaethau'r Derfynfa neu Reolwr Diogelwch dan Gytundeb (ICTS).
- 4.1.2 Ni ddefnyddir camerâu i edrych i mewn i eiddo preswyl preifat. Mae 'parthau preifat' ac atalwyr ar gamerâu wedi'u rhaglennu i'r system er mwyn rhwystro'r tu mewn i unrhyw eiddo preswyl preifat o fewn cyrhaeddiad y system rhag cael ei arolygu gan y camerâu.
- 4.1.3 Gall aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru cwyn ynghylch unrhyw agwedd o'r system TCC wneud hynny drwy gysylltu â PGDD.
- 4.1.4 Mae holl staff TCC wedi'u cytundebu'n ddarostyngedig i reolau sy'n rheoli cyfrinachedd a disgyblaeth. Gall unigolyn sy'n dioddef niwed neu ofid yn sgil mynd yn groes i'r Cod Arferion yma hawlio i iawndal.

4.2 Perchennog y System

- 4.2.1 Perchennog y system yw Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf, Heddlu De Cymru a LIFFDU.
- 4.2.2 Bydd gan Swyddog Pennaeth Gwasanaethau'r Derfynfa a Diogelwch, a enwir yn Atodlen A, sef y cynrychiolydd a ddewiswyd gan Berchennog y System, hawl mynediad personol digyfyngiad i'r Ystafell Reoli a'r Ystafell Offer a bydd yn gyfrifol am dderbyn adroddiadau cyson gan y Rheolwr System a'r Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb (ICTS).
- 4.2.3 Bydd ymgynghori ffurfiol yn digwydd rhwng perchennog a rheolwyr y system ynghylch pob agwedd, gan gynnwys y Cod Arferion yma a'r Llawlyfr Gweithredu.

4.3 Cynrychiolydd Perchenogion y System

- 4.3.1 Bydd Cynrychiolydd Perchenogion y System yn sicrhau y bydd pob cwyn yn derbyn cydnabyddiaeth ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyngor i'r achwynydd ar y drefn fydd yr ymholiad yn ei chymryd. Anfonir adroddiad ffurfiol ymlaen at yr un a enwebwyd gan berchennog y system, a enwir yn Atodlen A, gan roi manylion yr holl gwynion a chanlyniad yr ymholiadau.

4.4 Rheolwr System

- 4.4.1 Bydd gan y rheolwr system a enwebwyd, a enwir yn Atodlen A, y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y system yn ei chyfanrwydd.
- 4.4.2 Bydd y system TCC yn agored i archwiliad gan Adran Weithrediadau Maes Awyr Caerdydd a Grŵp Defnyddwyr y TCC, neu ddirprwy a enwebwyd sydd o leiaf yn gydradd yn gyfundrefnol â'r Rheolwr System, ond heb fod yn Rheolwr System.

4.5 Gwybodaeth i'r Cyhoedd

4.5.1 Cod Arferion:

Cyhoeddir copi o'r Cod Arferion ar wefan y maes awyr, a bydd copi ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais. Bydd copïau ychwanegol ar gael gan LIFfDU, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (UEGC), Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb a swyddfeydd Heddlu'r Maes Awyr.

4.5.2 Arwyddion:

Mae arwyddion wedi'u gosod mewn mannau dynodedig drwyddi draw yn y Maes Awyr.

Dylid gosod yr arwyddion fel bod y Cyhoedd, Staff y Maes Awyr a Chontractwyr ayyb, lle bo'n briodol, yn ymwybodol eu bod yn mynd i mewn i ardal ble mae Offer Gwylidwriaeth TCC yn gweithredu.

Dylai'r arwyddion fod yn gwbl amlwg ac eglur i aelodau'r cyhoedd.

Bydd maint yr arwyddion yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau e.e.:

- (a) Gall arwydd ar ddrws mynediad i adeilad fod cyn lleied â maint A3 oherwydd bod yr arwydd gyfuwch â llygaid y sawl sy'n mynd i mewn i'r adeilad tra,
- (b) Dylai arwyddion wrth fynedfeydd meysydd parcio, sy'n rhybuddio gyrwyr fod offer o'r fath yn y maes parcio, fod gan amlaf yn fawr e.e. maint A1, gan eu bod yn debygol o gael eu gweld o bellter. (os fydd TCC yn weithredol)

Dylai'r arwyddion gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- (a) Mae Maes Awyr Caerdydd Cyf yn gweithredu system TCC,
- (b) Diben y system TCC.
- (c) Manylion cyswllt (rhif ffôn).

Dylid gosod delwedd o gamera ar arwyddion. Bwriad hyn yw cynorthwyo unigolion sydd efallai ag anawsterau dysgu ayyb ac i helpu i sicrhau cyfreithlondeb prosesu TCC o wybodaeth a delweddau.

5. Asesiad o'r System a'r Cod Arferion

5.1 Gwerthuso

- 5.1.1 O dro i dro, bydd y system yn cael ei gwerthuso'n annibynnol er mwyn sefydlu os cydymffurfir â dibenion y system a bod amcanion y system yn cael eu cyflawni. Bydd y gwerthuso yn ymgorffori, ond nid yn gyfyngedig i bethau megis:
- Asesiad o'r effaith ar droseddu lleol.
 - Asesiad o'r effaith ar fusnes y maes awyr h.y. diogelwch safle'r maes awyr, diogelwch y cyhoedd, staff a chontractwyr.
 - Asesiad o ardaloedd cyfagos sydd heb TCC (dadleoliad).
 - Barn y cyhoedd.
 - Gweithredu'r Cod Arferion.
 - A yw dibenion sefydlu'r system yn parhau'n berthnasol.
 - Cost effeithiolrwydd a gwerth am arian.
- 5.1.2 Bydd canlyniadau'r gwerthuso'n cael eu cyhoeddi ac, os yn briodol, byddant yn pennu newidiadau a gwelliannau i swyddogaeth, rheoli a gweithredu'r system yn y dyfodol.
- 5.1.3 Y bwriad yw i'r gwerthuso ddigwydd o leiaf bob 2 flynedd.

5.2 Monitorio

Bydd y Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb yn derbyn cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am fonitorio, gweithredu a gwerthuso'r system ynghyd â gweithredu'r Cod Arferion.

5.3 Archwiliad

Bydd tîm archwilio adran Weithrediadau Maes Awyr Caerdydd, neu ddirprwy a enwebwyd nad yw'n Rheolwr System, yn gyfrifol am archwiliadau cyson o'r modd y gweithredir y system a'r cydymffurfio â'r Cod Arferion. Bydd archwiliadau, a all fod ar ffurf hapwiriad(au) afreolaidd, yn cynnwys archwilio'r Ystafell Reoli, offer recordio'r TCC, cynnwys deunydd a recordiwyd, cywirdeb llyfrau log a dogfennau, ayyb.

6. Adnoddau Dynol

6.1 Staffio'r Ystafell Reoli

6.1.1 Bydd yr Ystafell Reoli'n cael ei staffio ar sail 24 awr. Personél awdurdodedig sydd wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio fydd yr unig rai fydd yn defnyddio'r offer sy'n gysylltiedig â'r system a holl ddulliau gweithredu'r Ystafell Reoli. Rhoddir copi personol o'r Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu i bob gweithredwr; byddant yn llwyr gyfarwydd â chynnwys y Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu, a allai gael ei ddiweddarau o dro i dro. Bydd disgwyl iddynt gydymffurfio bob amser, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gyda pholisi darllen ac arwyddo'r TCC.

6.1.2 Mae Heddlu Maes Awyr wedi'u lleoli ar hyn o bryd ym Maes Awyr Caerdydd; mae'r 'fintai' yma'n cysylltu'n agos gyda rheolwyr y maes awyr a'r adran ddiogelwch. Mae dyletswyddau'r heddlu gofyn am bresenoldeb cyson yn yr Ystafell Reoli a bydd swyddogion yr heddlu'n:

- Cydymffurfio â mynediad i'r Ystafell Reoli ac yn arwyddo'r Llyfr Ymwelwyr, gweler adran 8.
- Gyfarwydd â'r Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu.

6.2 Disgyblaeth

6.2.1 Bydd pob unigolyn sydd ag unrhyw gyfrifoldeb o dan delerau'r Cod Arferion ac sydd ag unrhyw ymwneud â'r system TCC yn atebol i naill ai;

- Ddulliau gweithredu disgyblu Maes Awyr Caerdydd Cyf, neu i
- Ddulliau gweithredu disgyblu ICTS Maes Awyr Caerdydd,

fel bo'n briodol. Bydd unrhyw dorri ar y Cod Arferion yma neu ar unrhyw agwedd o gyfrinachedd yn cael ei drin yn unol â'r dulliau gweithredu yma.

6.2.2 Bydd Perchennog y System yn derbyn cyfrifoldeb sylfaenol i sicrhau nad oes torri cyfrinachedd a bod cydymffurfio â'r Cod Arferion. Mae cyfrifoldeb o ddydd i ddydd gan y Rheolwr Diogelwch (ICTS) am reoli'r ystafell ac am sicrhau disgyblaeth. Bydd peidio cydymffurfio â'r Cod Arferion gan unrhyw unigolyn yn cael ei ystyried yn dor-disgyblaeth difrifol (camymddwyn) y bydd gofyn ei drin yn unol â hynny, gan gynnwys, os yn briodol, dwyn achos troseddol.

6.3 Datganiad Cyfrinachedd

6.3.1 Bydd disgwyl i bob unigolyn sydd ag unrhyw gyfrifoldeb o dan delerau'r Cod Arferion ac sydd ag unrhyw ymwneud â'r system TCC, arwyddo datganiad cyfrinachedd, gweler Atodiad D (hefyd Adran 8 ynglŷn â mynediad i'r Ystafell Offer). Bydd Perchennog y System a'r Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb yn cynnal cofrestr o ddatganiadau cyfrinachedd wedi'u harwyddo.

7. Rheoli a Gweithredu Camerâu

7.1 Egwyddorion Arweiniol

- 7.1.1 Bydd unrhyw unigolyn fydd yn gweithredu'r system TCC yn ymddwyn gyda'r cywirdeb eithaf ar bob achlysur.
- 7.1.2 Bydd pob defnydd o'r camerâu yn cydsynio â dibenion ac amcanion y system a bydd yn cydymffurfio â'r Cod Arferion.
- 7.1.3 Ni ddefnyddir camerâu i edrych i mewn i eiddo preswyl preifat. Mae atalwyr ar gamerâu a 'pharthau preifat' wedi'u rhaglennu i'r system er mwyn rhwystro'r tu mewn i unrhyw eiddo preswyl preifat o fewn cyrhaeddiad y system rhag cael ei arolygu gan y camerâu.
- 7.1.4 Bydd gweithredwyr camerâu yn cymryd gofal rhag arfer rhagfarnau a allai arwain at gwynion fod y system yn cael ei defnyddio ar gyfer amcanion heblaw'r rhai a fwriadwyd. Gall gweithredwr orfod cyfiawnhau ei (d)diddordeb mewn, neu recordio, unrhyw unigolyn neilltuol, neu grwpiau o unigolion neu eiddo ar unrhyw adeg yn rhinwedd archwiliad o'r system neu gan Berchennog y System neu'r Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb.

7.2 Rheolaeth Sylfaenol

- 7.2.1 Dim ond yr aelodau awdurdodedig hynny o staff sy'n derbyn hyfforddiant priodol ac sydd â chyfrifoldeb dros ddefnyddio'r offer TCC fydd â hawl i fynd at y rheolyddion gweithredol; y gweithredwyr hynny fydd â'r hawl rheoli pennaf ar bob achlysur.

7.3 Monitorio Eilaidd

- 7.3.1 Mae monitorau rheoli eilaidd wedi'u lleoli yn y:

- Ganolfan Rheoli Diogelwch ac yn
- Swyddfeydd Rheolwyr Dynodedig Diogelwch y Maes Awyr.
- Adran DG Maes Awyr Caerdydd ar gyfer materion Archwilio a Diffygion
- Heddlu De Cymru (Adran Arbennig, UEGC)
- Lluoedd Ffiniau'r DU (LIFfDU)
- Rheolaeth y Ffedog (Hawl cyfyngedig i weld)
- Rheolaeth Traffig Awyr
- NCP
- Yr Adran Ddan
- Ystafelloedd *Silver Command*
- Tîm Gweithrediadau Maes Awyr Caerdydd

7.4 Yr Heddlu'n Gweithredu'r System

- 7.4.1 O dan amgylchiadau eithriadol gallai'r heddlu wneud cais i ymgymryd â rheolaeth uniongyrchol o'r system TCC. Dim ond ceisiadau ffurfiol gaiff eu hystyried a wneir ar awdurdod ysgrifenedig swyddog o'r heddlu sydd heb fod yn is na rheng uwch-arolygydd. Cytunir ag unrhyw gais o'r fath yn unig ar awdurdod ysgrifenedig personol uwch-gynrychiolydd Berchennog y System, neu ddirprwy dynodedig o statws cyfartal.
- 7.4.2 Petai cais o'r fath yn cael ei ganiatáu, bydd yr Ystafell Reoli'n parhau i gael ei staffio, a'r offer yn cael ei weithredu, yn unig gan y personél hynny sydd wedi'u hawdurdodi a'u hyfforddi i wneud hynny ac sy'n dod o dan delerau Adran 6 a 7 y Cod Arferion.
- 7.4.3 O dan amgylchiadau hynod eithriadol, e.e. digwyddiad o bwys/ar raddfa fawr, gallai'r heddlu wneud cais neu gyfarwyddyd i gymryd rheolaeth lwyr o'r system TCC, gan gynnwys staffio'r Ystafell Reoli. Rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei wneud yn y lle cyntaf i Berchennog y System neu ddirprwy o statws cyfartal. Rhaid i gais am reolaeth lwyr, neilltuedig gael ei wneud yn ysgrifenedig gan swyddog o'r heddlu sydd heb fod yn is na rheng Prif Gwnstabl Cynorthwyol neu swyddog o statws cyfartal.

8. Mynediad i, a Diogelwch yr Ystafell Reoli ac Offer Cysylltiol TCC

8.1 Mynediad Awdurdodedig

8.1.1 Dim ond personél awdurdodedig fydd yn gweithredu unrhyw offer a leolir o fewn yr Ystafell Reoli ac offer a gysylltir gyda'r system TCC a leolir yn yr Ystafell Offer.

8.2 Mynediad i'r Cyhoedd

8.2.1 Ni chaniateir i'r cyhoedd gael mynediad at yr adnoddau monitorio a recordio oni bai bod ganddynt resymau cyfreithlon, priodol a digonol ac yn ychwanegol bydd rhaid cael awdurdod personol gan Berchennog y System/Rheolwr Diogelwch. Bydd unrhyw ymweliadau o'r fath yn cael eu cynnal a'u recordio yn unol â pharagraffau 8.3 ac 8.4.

8.3 Ymweliadau Awdurdodedig

8.3.1 Nid yw ymweliadau gan arolygwyr, Awdurdodau Rheoli (ARh) neu archwilwyr yn dod o fewn cwmpas paragraff 8.2 a gallant ddigwydd ar unrhyw adeg, heb rybudd blaenorol. Ni fydd mwy na 2 arolygwr, staff ARh neu archwiliwr yn ymweld ar y tro. Ni fydd arolygwyr nac archwilwyr yn dylanwadu ar weithrediad unrhyw ran o'r system TCC yn ystod eu hymweliad. Bydd yr ymweliad yn cael ei ohirio os digwydd iddo fod yn weithredol anghyfleus; bydd unrhyw ymweliad o'r fath yn cael ei recordio yn unol â pharagraff 8.4.

8.4 Datganiad Cyfrinachedd

8.4.1 Rhaid i BOB ymwelydd â'r Ystafell Reoli a/neu'r Ystafell Offer, ni waeth beth fo'i statws, gofnodi ei fanylion a'i lofnod yn y Llyfr Ymwelwyr, a thrwy hynny bydd yn dangos ei fod yn cytuno i gydymffurfio â'r Datganiad Cyfrinachedd, gweler Atodiad D.

8.5 Diogelwch

8.5.1 Bydd personél awdurdodedig yn bresennol drwy'r amser pan fydd yr offer yn cael ei ddefnyddio. Petai rhaid gwagio'r Ystafell Reoli am resymau diogelwch, cydymffurfir â threfn arferol yr Ystafell Reoli/derfynfa; ni fydd unrhyw offer TCC yn cael ei ddiffodd.

9. Rheoli Deunydd a Recordiwyd

9.1 Egwyddorion Arweiniol

- 9.1.1 Ar gyfer dibenion y Cod Arferion yma, golyga 'deunydd a recordiwyd' unrhyw ddeunydd/data/delweddau a recordiwyd gan, neu o ganlyniad i, offer technegol sy'n rhan o'r system TCC; mae hyn yn benodol yn cynnwys delweddau a recordiwyd yn ddigidol neu drwy gopïo i CD-R a phrintiau fideo 'copi caled'.
- 9.1.2 Mae gan bob recordiad a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r system TCC y potensial o gynnwys deunydd y bydd rhaid ei dderbyn fel tystiolaeth ar ryw adeg yn ystod ei oes.
- 9.1.3 Rhaid i aelodau'r gymuned/cyhoedd gael ymddiriedaeth lwyr fod deunydd a recordir yn rhinwedd y system TCC mewn perthynas â'u gweithgaredd cyffredin yn cael ei drin gyda pharch dyledus i'w hawliau unigol i barchu'u preifatrwydd a'u bywyd teuluol.
- 9.1.4 O'r herwydd mae o'r pwys mwyaf fod pob dull o recordio data yn cael ei drin yn llwyr yn unol â'r Cod Arferion, o'r eiliad y caiff ei recordio hyd oni bydd yn cael ei ddifa/ddileu. Bydd pob symudiad a defnydd (prosesu) yn cael ei recordio'n fanwl gywir.
- 9.1.5 Bydd hawl gweld a defnyddio deunydd a recordiwyd yn llwyr ar gyfer y dibenion a'r amcanion a ddiffinnir yn y Cod Arferion.
- 9.1.6 Ni fydd deunydd a recordiwyd yn cael ei gopïo, ei werthu, ei gyhoeddi na'i ddefnyddio ar gyfer dibenion masnachol nac i ddarparu adloniant.

9.2 Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyrchu neu Ddatgelu Data i Drydydd Parti

- 9.2.1 Bydd pob cais am ryddhau data personol a gynhyrchwyd gan y system TCC yn cael ei sianelu drwy Berchennog y System a fydd yn sicrhau y bydd yr egwyddorion a gynhwysir yn Atodlen C y Cod Arferion yn cael eu gweithredu.
- 9.2.2 Wrth gydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyrchu neu Ddatgelu Data i Drydydd Parti, mae'n fwriad, cyn belled â'i bod yn weddol ymarferol, diogelu hawl unigolyn i breifatrwydd ac i weithredu'r egwyddorion canlynol:
- v. Bydd deunydd a recordir yn cael ei brosesu'n gyfreithlon ac yn deg, ac yn cael ei ddefnyddio'n unig ar gyfer y dibenion a'r amcanion a ddiffinnir yn y Cod Arferion.
 - vi. Bydd hawl i weld deunydd a recordiwyd yn digwydd yn unig yn unol ag Atodlen C.
 - vii. Gwaherddir yn llwyr ryddhau neu ddatgelu data ar gyfer defnydd masnachol neu adloniadol.
- 9.2.3 Gall aelodau o wasanaeth yr heddlu neu asiantaeth arall sydd ag awdurdod statudol i archwilio ac/neu i erlyn troseddau, yn amodol ar gydymffurfio ag Atodlen C, ryddhau manylion deunydd a recordiwyd i'r cyfryngau yn unig mewn ymdrech i adnabod troseddwyd honedig a/neu dystion posibl.

Cod Arferion Teledu Cylch Cyfng

D.S. Bydd rhyddhau deunydd a recordiwyd i'r cyfryngau, mewn unrhyw fformat, a all fod yn rhan o ymchwiliad cyfredol, yn dod o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Dylai unrhyw ddatgeliad o'r fath gael ei wneud yn unig wedi ystyriaeth briodol am yr effaith tebygol ar achos cyfreithiol. Rhaid i holl fanylion unrhyw sylw gan y cyfryngau gael eu recordio a'u dwyn i sylw'r erlyniad yn ogystal â'r amddiffyniad.

- 9.2.4 Os bwriedir dangos deunydd i dystion, gan gynnwys swyddogion yr heddlu, gyda'r bwriad o sicrhau tystiolaeth adnabod, rhaid gwneud hynny yn unol ag Atodlen C.
- 9.2.5 Gall fod yn fuddiol i ddefnyddio deunydd a recordiwyd ar gyfer hyfforddi ac addysgu'r rhai hynny sy'n ymwneud â gweithredu a rheoli'r system TCC, a'r rhai hynny sydd ynghlwm ag ymchwilio i, atal a datrys troseddau. Bydd unrhyw ddeunydd a recordir yn rhinwedd y system TCC ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion hyfforddi ac addysgu dilys. Ni fydd deunydd a recordiwyd yn cael ei ryddhau ar gyfer dibenion masnachol nac adloniadol.

9.3 Cadw Deunydd a Recordiwyd

- 9.3.1 Bydd deunydd a recordiwyd yn cael ei gadw hyd at 30 diwrnod. Brasamcan yw'r ffigwr hwn a bydd yn amrywio ychydig yn ddibynnol ar gynhwysedd yr unedau recordio digidol. Yn dilyn y cyfnod yma bydd y data i gyd yn cael ei ddifa/ddileu drwy drosysgrifo.

9.4 Polisi Recordio

- 9.4.1 Yn amodol ar yr offer recordio'n gweithio'n gywir, bydd delweddau o bob camera'n cael eu recordio yn ystod pob cyfnod o 24 awr, ar raddfa fydd o leiaf yn un ffrâm yr eiliad, mewn dull treigl amser.

9.5 Delweddau Tystiolaethol

- 9.5.1 Pe byddai angen delweddau ar gyfer dibenion tystiolaethol rhaid i'r manylion gael eu cofnodi yn y Log Atafaelu Tystiolaeth yn unol â'r Llawlyfr Gweithredu.

Atodlen A

Manylion Personél Allweddol a Chyfrifoldebau

1 **Perchennog y System:** Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf

Cynrychiolydd Perchennog y System: **Ceri Mashlan**
Pennaeth Gweithrediadau'r Derfynfa a Diogelwch
Maes Awyr Caerdydd Cyf
Bro Morgannwg
CF62 3BD
Ffôn: 01446 712944
Ffacs: 01446 712555

Cyfrifoldebau:

Maes Awyr Caerdydd Cyf yw 'perchennog' y system TCC. Pennaeth Gweithrediadau'r Derfynfa a Diogelwch yw'r un cyfeirbwynt ar ran y perchennog. Mae ei rôl yn cynnwys cyfrifoldeb am:

- i. Sicrhau darparu, cynnal a chadw'r holl offer sy'n rhan o'r system TCC yn unol â threfniadau cytundebol y bydd y perchennog yn eu gwneud o bryd i'w gilydd.
- ii. Gynnal cysylltiad agos gyda'r Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb a'r Rheolwr System.
- iii. Sicrhau fod buddiannau'r perchennog a sefydliadau eraill yn cael eu cynnal yn unol â thelerau'r Cod Arferion.
- iv. Gytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig ac ychwanegiadau at y system, y Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu.

2 **Rheolwr System**

Cheryl Bray
Rheolwr Cefnogi Systemau Gwybodaeth
Maes Awyr Caerdydd Cyf
Bro Morgannwg
CF62 3BD
Ffôn: 01446 712500

Cyfrifoldebau:

Y Cynllunydd Cyfleusterau yw'r Rheolwr System sydd ag awdurdod wedi'i ddirprwyo fel Rheolwr Data. Mae ei rôl yn cynnwys cyfrifoldeb am:

- i. Gynnal rheolaeth weithredol o'r system TCC.
- ii. Ddatblygu a diwygio'r Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu, ar y cyd â PGDD.
- iii. Gysylltu gyda'r Rheolwr Diogelwch ynghylch darparu hyfforddiant addas ar gyfer gweithredwyr TCC.
- iv. Gynnal cysylltiadau gyda'r holl bartneriaid gweithredol.

3 Rheolwr Diogelwch dan Gytundeb

Rheolwr Cytundeb ICTS
Rheolwr Diogelwch y Maes Awyr
ICTS Cyf,
Maes Awyr Caerdydd Cyf
Bro Morgannwg
CF62 3BD

Ffôn: 01446 712509

Cyfrifoldebau:

Mae cyfrifoldebau'r Rheolwr Diogelwch wedi'u cyflwyno yn Llawlyfr y Maes Awyr. Mewn perthynas â'r system TCC, mae rôl y Rheolwr Diogelwch yn cynnwys cyfrifoldeb am:

- i. Gynnal rheolaeth y system o ddydd i ddydd (gweithredwyr yr Ystafell Reoli).
- ii. Dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol am y system a sicrhau fod staff ICTS yn cydymffurfio â'r Cod Arferion a'r Llawlyfr Gweithredu.
- iii. Gysylltu gyda'r Rheolwr System ynghylch yr anghenion hyfforddiant addas ar gyfer gweithredwyr TCC.
- iv. Gynnal cysylltiadau gyda Pherchennog y System a'r Rheolwr System.

Atodlen B

Dyfyniad o'r Ddeddf Diogelu Data 1998

Pennod 29 Rhan II, Adran 7 ac 8

Adran 7 – Hawl i weld data personol.

- (1) Yn amodol ar y darpariaethau canlynol yn yr adran hon ac yn adran 8 a 9, mae gan unigolyn yr hawl –
 - (a) i gael ei hysbysu gan unrhyw reolwr data os oes data personol y mae'r unigolyn hwnnw yn wrthrych iddynt yn cael eu prosesu gan neu ar ran y rheolwr data hwnnw,
 - (b) os felly y mae, i dderbyn disgrifiad gan y rheolwr data o'r –
 - I. data personol y mae'r unigolyn hwnnw yn wrthrych iddynt,
 - II. diben y maent yn cael, neu am gael eu prosesu, a'r
 - III. derbynyddion neu ddsbarth derbynyddion sydd neu a fydd yn eu derbyn,
 - (c) i dderbyn gwybodaeth mewn modd dealladwy –
 - I. y wybodaeth sy'n ffurfio unrhyw ddata personol y mae'r unigolyn hwnnw'n wrthrych iddo, ac
 - II. unrhyw wybodaeth sydd ar gael i'r rheolwr data am ffynhonnell y data hynny, a
 - (d) pan fo data personol y mae'r unigolyn hwnnw yn wrthrych iddynt yn cael eu prosesu mewn dull awtomatig at ddiben gwerthuso materion sy'n ymwneud ag ef megis, er enghraifft, sut mae'n cyflawni ei waith, ei deilyngdod credyd, ei ddibynadwyedd neu ei ymddygiad, wedi ffurfio neu'n debygol o ffurfio'r unig sail am unrhyw benderfyniad sy'n effeithio'n sylweddol arno, i gael ei hysbysu gan y rheolwr data am y rhesymeg y tu ôl i wneud y penderfyniad hwnnw.
- (2) Nid oes gorfodaeth ar reolwr data i ddarparu unrhyw wybodaeth o dan isadran (1) oni bai ei fod wedi derbyn -
 - (a) cais ysgrifenedig, a
 - (b) heblaw mewn achosion penodedig, y cyfryw ffi (heb fod yn fwy na mwyafswm penodedig) yn ôl y galw.
- (3) Nid oes gorfodaeth ar reolwr data i gydymffurfio â chais o dan yr adran hon oni bai ei fod wedi derbyn gwybodaeth y byddai'n rhesymol iddo dderbyn er mwyn bodloni ei hun ynglŷn ag adnabyddiaeth o'r unigolyn sy'n gwneud y cais ac i ddod o hyd i'r wybodaeth y mae'r unigolyn hwnnw'n chwilio amdano.
- (4) Pan na all rheolwr data gydymffurfio â chais heb ddatgelu gwybodaeth berthnasol am unigolyn arall y gellir ei adnabod o'r wybodaeth honno, nid oes gorfodaeth arno i gydymffurfio â'r cais oni bai –

Cod Arferion Teledu Cylch Cyfyng

- (a) fod yr unigolyn arall wedi cydsynio i'r wybodaeth gael ei datgelu i'r unigolyn sy'n gwneud y cais, neu
 - (b) ei bod yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i gydymffurfio â'r cais heb gydsyniad yr unigolyn arall.
- (5) Yn isadran (4) mae'r cyfeiriad at wybodaeth ynghylch unigolyn arall yn cynnwys cyfeiriad at wybodaeth sy'n adnabod yr unigolyn hwnnw fel ffynhonnell y wybodaeth y mae'r cais yn chwilio amdano; ac ni ddylid camddehongli'r isadran honno er mwyn esgusodi rheolwr data rhag cyfathrebu gymaint o'r wybodaeth a geisir yn y cais ag y bo modd ei gyfathrebu heb ddatgelu adnabyddiaeth o'r unigolyn arall dan sylw, pa un ai drwy hepgor enwau neu fanylion adnabod eraill neu fel arall.
- (6) Wrth benderfynu amcanion is-adran (4)(b) pa un ai ei bod yn rhesymol o dan bob amgylchiad i gydymffurfio â chais heb gydsyniad yr unigolyn arall dan sylw, rhaid ystyried, yn arbennig -
- (a) unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolyn arall,
 - (b) unrhyw gamau a gymerwyd gan y rheolwr data gyda golwg ar geisio cael cydsyniad yr unigolyn arall,
 - (c) os yw'r unigolyn yn gallu cydsynio, ac
 - (d) unrhyw wrthodiad pendant i gydsynio gan yr unigolyn arall.
- (7) Gall unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais o dan yr adran hon, mewn rhai achosion penodedig, nodi fod ei gais yn gyfyngedig i ddata personol o fath penodedig.
- (8) Yn amodol ar is-adran (4), bydd rheolwr data yn cydymffurfio â chais o dan yr adran yma'n ddiymdroi a pha un bynnag cyn diwedd y cyfnod penodedig gan ddechrau gyda'r diwrnod perthnasol.
- (9) Os yw llys yn fodlon ar gais unrhyw unigolyn sydd wedi gwneud cais o dan ddarpariaethau blaenorol yr adran hon fod y rheolwr data o dan sylw wedi methu cydymffurfio â'r cais yn groes i'r darpariaethau hyn, gall y llys ei orchymyn i gydymffurfio â'r cais.
- (10) Yn yr adran hon -
- ystyr "penodedig" yw penodedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau;
 - ystyr "y mwyafswm penodedig" yw swm a gaiff ei bennu;
 - ystyr "y cyfnod penodedig" yw pedwar deg diwrnod neu gyfnod arall a gaiff ei bennu;
 - ystyr "y diwrnod perthnasol", mewn perthynas â chais o dan yr adran hon, yw'r diwrnod y bydd y rheolwr data yn derbyn y cais neu, os yn hwyrach, y diwrnod cyntaf y bydd y rheolwr data'n derbyn y ffi angenrheidiol yn ogystal â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-adran (3).
- (11) Gellir pennu cyfnodau amrywiol o dan yr adran hon mewn perthynas â gwahanol achosion.

Adran 8 – Darpariaeth Atodol i Adran 7

Cod Arferion Teledu Cylch Cyfyng

- (1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau ddarparu fod, mewn achosion penodedig, cais am wybodaeth o dan unrhyw ddarpariaeth o is-adran (1) o adran 7 yn cael ei drin fel ei fod hefyd yn ymestyn i wybodaeth o dan ddarpariaethau'r is-adran honno.
- (2) Rhaid cydymffurfio â'r rhwymedigaeth a osodir gan adran (7). (c)(i) drwy gyfleu gwrthrych y data gyda copi o'r wybodaeth mewn ffurf barhaol oni bai -
 - (a) byddai cyfleu copi o'r fath yn amhosibl neu byddai'n golygu ymdrech anghymesur, neu
 - (c) fod gwrthrych y data yn cytuno fel arall; a phan fo unrhyw wybodaeth a gyfeirir ati yn adran 7(1)(c)(i) yn cael ei mynegi mewn termau annealladwy heb eglurhad rhaid cael eglurhad o'r termau hynny i fynd gyda'r copi.
- (3) Os yw rheolwr data wedi cydymffurfio yn y gorffennol gyda chais a wnaed o dan adran 7 gan unigolyn, nid oes gorfodaeth ar y rheolwr data i gydymffurfio â chais ar ôl hynny o dan yr adran honno gan yr unigolyn hwnnw oni bai fod cyfnod rhesymol wedi mynd heibio rhwng cydymffurfio â chais blaenorol a gwneud y cais cyfredol.
- (4) Wrth benderfynu ar gyfer dibenion is-adran (3) os yw ceisiadau o dan adran 7 yn cael eu gwneud ar gyfnodau rhesymol, rhaid ystyried natur y data, bwriad prosesu'r data a pha mor aml y bydd y data yn newid.
- (5) Ni ddylid ystyried adran 7(1).(d) fel un sydd angen darparu gwybodaeth ar y rhesymeg ynghlwm mewn gwneud penderfyniad os yw'r, ac i'r graddau y bo'r wybodaeth yn gyfrinach fasnach.
- (6) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir yn unol â chais o dan adran 7 gael ei gyflwyno gyda golwg ar y data o dan sylw ar yr adeg y derbynir y cais, ac eithrio y gall ystyried unrhyw welliant neu ddilead a wnaed rhwng yr amser hynny a'r amser pan roddir y wybodaeth, a hynny'n welliant neu'n ddilead a fyddai wedi'i wneud petai'r cais wedi'i dderbyn ai peidio.
- (7) Ar gyfer dibenion adran 7(4) a 7(5) gall unigolyn arall gael ei adnabod o'r wybodaeth a ddatgelir os all gael ei adnabod o'r wybodaeth honno, neu o'r wybodaeth honno ac unrhyw wybodaeth arall sydd, yng nghred rhesymol y rheolwr data, yn debygol o fod ym meddiant, neu'n debygol o ddod i feddiant, gwthrych y data sy'n gwneud y cais.

Atodlen C

Cyrchu a Datgelu Data i Drydydd Parti

Rheoli Data/Delweddau

Mae'n rhaid i gyrchu a datgelu delweddau a recordiwyd gan y system TCC gael ei gyfyngu a'i reoli'n ofalus am 2 brif reswm:

- a. I sicrhau fod hawliau unigolion yn cael eu diogelu.
- b. I sicrhau fod y gadwyn dystiolaeth yn aros yn ddi-dor petai angen y delweddau ar gyfer dibenion tystiolaethol.

Egwyddorion Cyrchu a Datgelu

Dylid cyrchu a datgelu delweddau a recordiwyd i asiantau awdurdodedig yn unig a hynny o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Asiantaethau gweithredu'r gyfraith; lle byddai'r delweddau a recordiwyd yn cynorthwyo mewn ymchwiliad troseddol penodol.
- Asiantaethau erlyn.
- Cynrychiolwyr cyfreithiol perthnasol.
- Y cyfryngau; lle y cytunir fod angen cymorth y cyhoedd er mwyn cynorthwyo gydag adnabod tramgwyddwr, dioddefwr, neu dyst mewn perthynas â digwyddiad troseddol.
- Delweddau o bobl a recordiwyd ac a gadwyd, oni bai hynny'n niweidio ymholiadau/achosion troseddol.

D.S. Ni ddylid rhyddhau deunydd a recordiwyd i'r cyfryngau heb ganiatâd penodol Perchennog y System, Pennaeth Gweithrediadau'r Derfynfa a Diogelwch neu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Ceisiadau am Gyrchu Delweddau

Bydd pob cais am gyrchu a datgelu delweddau yn cael ei gofnodi yn y log Cais am luniau a/neu Log Atafaelu Tystiolaeth fel bo'n addas. Mewn rhai achosion gall fod yn addas hefyd i recordio'r manylion yn Log Digwyddiadau'r Ystafell Reoli. Rhaid i gofnod gynnwys manylion llawn am amser a dyddiad y digwyddiad, enw'r unigolyn sy'n gwneud y cais, y cais ei hun, a'r rhesymau.

Os bydd cyrchu/datgelu'n cael ei wrthod, cofnodir y rheswm yn y Log(iau).

Os bydd cyrchu/datgelu'n cael ei ganiatáu, yna cofnodir y canlynol yn y Log(iau):

- i. Y dyddiad a'r amser pan gafodd y cyrchu ei ganiatáu neu pan ddatgelwyd y deunydd.
- ii. Manylion unrhyw 3ydd parti a gafodd ganiatâd i gyrchu neu a ddatgelwyd deunydd iddo.
- iii. Y rheswm/rhesymau am ganiatáu cyrchu/datgelu.
- iv. Hyd a lled y wybodaeth y cafwyd caniatâd i'w gyrchu/ddatgelu (rhifau camerâu, dyddiadau, amseroedd ayyb).

Atodlen D

Datganiad Cyfrinachedd

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys enghreifftiau o ffurflenni 'Datganiad Cyfrinachedd' sy'n berthnasol i:

- Weithwyr y Maes Awyr (gweithredwyr TCC).
- Arolygwyr ac archwilwyr y system TCC.
- Ymwelwyr awdurdodedig.

Mae copïau o'r Datganiad Cyfrinachedd yn cael eu;

- harddangos ar ddrws yr Ystafell Reoli, a'u
- cadw yn y Llyfr Ymwelwyr (copi lamedig).

Rhaid i bob aelod o'r staff gydymffurfio â'r Datganiad Cyfrinachedd. Rhaid i bob ymwelydd lofnodi'r Llyfr Ymwelwyr, ac o ganlyniad bydd hynny dangos eu bod wedi darllen, deall ac y byddant yn cydymffurfio â'r Datganiad Cyfrinachedd.

Datganiad Cyfrinachedd

Gweithiwr y Maes Awyr (Gweithredwyr TCC)

Rwy'n cael fy nghyflogi gani gyflawni dyletswyddau Gweithredwr TCC ym Maes Awyr Caerdydd. Rwyf wedi derbyn copi o'r Cod Arferion ar gyfer gweithredu a rheoli'r system TCC.

Rwy'n cyhoeddi gan hynny fy mod:

Yn llwyr gyfarwydd â chynnwys y Cod Arferion ac rwy'n deall fod rhaid i bob dyletswydd yr wyf yn ei chyflawni yng nghyswllt system TCC Maes Awyr Caerdydd beidio mynd yn groes i unrhyw ran o'r Cod Arferion cyfredol neu unrhyw welliant yn y dyfodol. Pe byddwn yn awr, neu yn y dyfodol, yn aneglur am unrhyw agwedd o drefn weithredu'r system neu am gynnwys y Cod Arferion, byddaf yn ymgymryd i geisio cael eglurhad o unrhyw ansicrwydd o'r fath.

Rwy'n deall ei fod yn amod o'm cyflogaeth nad wyf yn dadlennu nac yn datgelu i unrhyw unigolyn, busnes, cwmni, awdurdod, asiantaeth nac unrhyw sefydliad arall, unrhyw wybodaeth y byddaf wedi ei gael yn ystod, neu at ddibenion, fy nyletswyddau yng nghyswllt system TCC Maes Awyr Caerdydd, yn llafar, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng arall, yn awr neu yn y dyfodol, gan gynnwys y fath gyfnod pan na fyddaf yn cael fy nghyflogi yng nghyswllt y system TCC.

Wrth lofnodi'r datganiad hwn, rwy'n cytuno i gadw at y Cod Arferion bob amser. Rwyf hefyd yn deall ac yn cytuno i gynnal cyfrinachedd o ran pob gwybodaeth a gaf yn ystod fy nyletswyddau, boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng arall, yn awr ac yn y dyfodol.

Arwyddwyd:.....

Printiwch eich Enw :.....

Safle:.....

Tyst:.....

Dyddiedig ydydd o.....20.....

Datganiad Cyfrinachedd

Arolygwyr ac Archwiliwyr System TCC

Rwy'n arolygwr/archwiliwr gwirfoddol o system TCC Maes Awyr Caerdydd gyda chyfrifoldeb am arolygu gweithredu'r system ac ymlyniad at y Cod Arferion. Rwyf wedi derbyn copi o'r Cod Arferion ar gyfer gweithredu a rheoli'r system TCC.

Rwy'n cyhoeddi gan hynny fy mod:

Yn llwyr gyfarwydd â'm dyletswyddau gwirfoddol a chynnwys y Cod Arferion. Rwy'n ymrwymo i hysbysu Perchennog y System a/neu'r Rheolwr System am unrhyw achos y byddaf yn sylwi arno yn ystod fy ymweliadau â'r safle monitorio sy'n ymddangos ei fod yn mynd yn groes i'r Cod Arferion.

Pe byddwn yn awr, neu yn y dyfodol, yn aneglur am unrhyw agwedd o drefn weithredu'r system neu am gynnwys y Cod Arferion, byddaf yn ymgymryd i geisio cael eglurhad o unrhyw ansicrwydd o'r fath.

Rwy'n deall ei fod yn amod o'm dyletswyddau gwirfoddol nad wyf yn dadlennu nac yn datgelu i unrhyw unigolyn, busnes, cwmni, awdurdod, asiantaeth nac unrhyw sefydliad arall, unrhyw wybodaeth y byddaf wedi ei gael yn ystod, neu at ddibenion, fy nyletswyddau yng nghyswllt system TCC Maes Awyr Caerdydd, yn llafar, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng arall, yn awr neu yn y dyfodol, gan gynnwys y fath gyfnod pan na fyddaf yn cyflawni rôl arolygwr/archwiliwr y system TCC.

Wrth lofnodi'r datganiad hwn, rwy'n cytuno i gadw at y Cod Arferion bob amser. Rwyf hefyd yn deall ac yn cytuno i gynnal cyfrinachedd o ran pob gwybodaeth a gaf yn ystod fy nyletswyddau, boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng arall, yn awr ac yn y dyfodol.

Arwyddwyd:.....

Printiwch eich Enw :.....

Safle:.....

Tyst:.....

Dyddiedig ydydd o.....20.....

Datganiad Cyfrinachedd

Ymwelydd Awdurdodedig

Rwy'n ymwelydd awdurdodedig ag Ystafell Reoli Maes Awyr Caerdydd a'r system TCC.

Rwy'n cyhoeddi gan hynny fy mod:

Yn deall ei fod yn amod o'm hymweliad na fyddaf yn dadlennu nac yn datgelu i unrhyw unigolyn, busnes, cwmni, awdurdod, asiantaeth nac unrhyw sefydliad arall, unrhyw wybodaeth y byddaf wedi ei gael yn ystod, neu at ddibenion, fy ymweliad yng nghyswllt system TCC Maes Awyr Caerdydd, yn llafar, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng arall, yn awr neu yn y dyfodol.

Wrth lofnodi'r datganiad yma, rwy'n cytuno i gynnal cyfrinachedd yng nghyswllt unrhyw wybodaeth a gaf yn ystod fy ymweliad, boed hynny'n llafar, yn ysgrifenedig neu drwy unrhyw gyfrwng arall, yn awr ac yn y dyfodol.

Arwyddwyd:.....

Printiwch eich Enw :.....

Safle:.....

Tyst:.....

Dyddiedig ydydd o.....20.....

Atodlen E

Sut i Wneud Cais i Gyrchu Gwybodaeth a Gedwir ar System TCC Maes Awyr Caerdydd

Mae'r nodiadau hyn yn egluro sut y gallwch ddod o hyd i ba wybodaeth, os o gwbl, a gedwir amdanoch ar y system TCC.

Eich Hawliau

Yn amodol ar rai eithriadau, mae gennych i hawl i wybod os oes unrhyw ddata personol amdanoch yn cael ei gadw. Mae gennych hefyd hawl i gael copi o'r wybodaeth honno mewn ffurf barhaol oni bai ei bod yn amhosibl darparu copi o'r fath neu y byddai'n golygu ymdrech anghymesur, neu y byddwch yn cytuno fel arall. Bydd Maes Awyr Caerdydd ond yn rhoi'r wybodaeth honno os yw'n fodlon ar bwy ydych chi. Os bydd rhyddhau'r wybodaeth yn datgelu gwybodaeth am unigolyn arall/unigolion eraill, y bydd modd ei adnabod/eu hadnabod o'r wybodaeth honno, ni fydd gorfodaeth ar y Maes Awyr i gydymffurfio â chais i gyrchu'r wybodaeth oni bai –

- Fod yr unigolyn arall wedi cydsynio i'r wybodaeth gael ei datgelu, neu
- Ei fod yn rhesymol ag ystyried yr holl amgylchiadau i gydymffurfio gyda'r cais heb gydsyniad yr unigolyn arall/unigolion eraill

Hawliau'r Maes Awyr

Gall Maes Awyr Caerdydd wrthod hawl i gyrchu'r wybodaeth lle bo'r ddeddf yn caniatáu. Y prif eithriadau mewn perthynas â gwybodaeth a gedwir ar system TCC yw pan gedwir y wybodaeth am resymau:

- Atal neu ddatrys troseddau
- Restio ac erlyn troseddwy

A bod rhoi'r wybodaeth i chi yn debygol o niweidio unrhyw un o'r dibenion yma.

Ffi

Mae ffi o £10 yn daladwy am bob cais i gyrchu gwybodaeth, a hynny mewn punnoedd. Dylid gwneud sicciau, Archebion Post, ayyb yn daladwy i **'Maes Awyr Caerdydd Cyf.'**

Y FFURFLEN GAIS:

(D.S. Rhaid llenwi POB adran o'r ffurflen. Gallai olygu oedi gyda'ch cais o beidio gwneud.)

Adran 1 Sy'n gofyn i chi roi gwybodaeth amdanoch chi eich hun a fydd o gymorth i'r Maes Awyr gadarnhau pwy ydych chi. Mae dyletswydd gan y Maes Awyr i sicrhau fod y wybodaeth mae'n gadw yn ddiogel ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon mai chi yw'r unigolyn dilys sy'n gwneud y cais.

Adran 2 Sy'n gofyn i chi ddarparu tystiolaeth am bwy ydych chi drwy gyflwyno DWY ddogfen swyddogol (sydd rhwng y ddwy yn dangos yn glir eich enw, dyddiad geni a chyfeiriad cyfredol) ynghyd â ffotograff diweddar o'ch wyneb cyfan.

Adran 3 Sy'n gofyn i chi gadarnhau os wnewch chi gytuno i weld y wybodaeth yn unig, neu os ydych am gael copi o'r wybodaeth.

Adran 4 Rhaid i chi lofnodi'r datganiad

Wedi i chi lenwi a gwirio'r ffurflen yma, ewch â hi neu anfonwch hi gyda'r DDWY ddogfen adnabod ofynnol, ffotograff a ffi at:

RHEOLWR Y SYSTEM TCC, Maes Awyr Caerdydd Cyf, CF62 3BD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch naill ai'r ffurflen hon, neu'ch cais, byddwchystal â ffonio Rheolwr y System TCC ar 01446 711111

ADRAN 1 Amdanoch Chi'ch Hun

Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani isod yn gymorth i'r Maes Awyr (a) fodloni ei hun ynghylch pwy ydych chi a (b) ddod o hyd i unrhyw ddata a gedwir amdanoch chi.

DEFNYDDI WCH LYTHRENAU BREISION OS GWELWCH YN DDA

Teitl (<i>ticiwch y blwch perthnasol</i>)	Mr		Mrs		Miss		Ms	
Teitl arall (<i>e.e. Dr, Parch., ayyb.</i>)								
Cyfenw/enw'r teulu								
Enwau cyntaf								
Enw cyn priodi/enwau blaenorol								
Rhyw (<i>ticiwch flwch</i>)	Gwryw			Benyw				
Taldra								
Dyddiad Geni								
Man Geni	Tref							
	Sir							
Eich Cyfeiriad Cartref Cyfredol (<i>i'r lle y byddwn yn ateb</i>)								
	Cod Post							
Byddai rhif ffôn yn ddefnyddiol pe byddai rhaid cysylltu â chi.	Rhif Ffôn							

Os ydych wedi byw yn y cyfeiriad uchod am lai na 10 mlynedd, rhowch eich cyfeiriadau blaenorol dros y cyfnod os gwelwch yn dda:

Cyfeiriad(au) blaenorol		
Dyddiadau deiliadaeth	O:	I:
Dyddiadau deiliadaeth	O:	I:

ADRAN 2 Prawf Adnabod

I gynorthwyo sefydlu pwy ydych chi, rhaid i'ch cais gael ei gyfleu gyda **DWY** ddogfen swyddogol a fydd rhwng y ddwy yn dangos yn glir eich enw, dyddiad geni a'ch cyfeiriad cyfredol.

Er enghraifft: tystysgrif geni/mabwysiadu, trwydded yrru, cerdyn meddygol, pasbort neu ddogfen swyddogol arall sy'n dangos eich enw a'ch cyfeiriad.

Hefyd ffotograff diweddar ohonoch, yn dangos eich wyneb cyfan.

Bydd peidio darparu elfennau'r prawf adnabod yma efallai yn achosi oedi gyda'ch cais.

ADRAN 3 Cyflenwi Gwybodaeth

Mae gennych hawl, yn amodol ar rai eithriadau, i dderbyn copi o'r wybodaeth ar ffurf barhaol. Ydych chi eisiau?

(a) Gweld y wybodaeth a derbyn copi parhaol

YDW /
NAC YDW

(b) Gweld y wybodaeth yn unig

YDW /
NAC YDW

ADRAN 4 Datganiad

DATGANIAD (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd)

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i gyflwyno yn y cais hwn yn gywir ac mae'n berthnasol i mi.

Arwyddwyd gan

Dyddiad

Rhybudd – gall unigolyn sy'n personadu neu sy'n ceisio personadu rhywun arall fod yn euog o drosedd.

YN AWR – cwblhewch Adran 5 os gwelwch yn dda ac yna gwiriwch y blwch 'GWIRIO' cyn dychwelyd y ffurflen.

ADRAN 5 I'n Cynorthwyo i Ddod o Hyd i'r Wybodaeth

Os yw'r wybodaeth yr ydych wedi gwneud cais i'w weld yn cyfeirio at drosedd neu ddigwyddiad penodol, cwblhewch yr Adran hon os gwelwch yn dda.

Cwblhewch flwch ar wahân ar gyfer gwahanol gategoriâu/ddigwyddiadau/gysylltiadau os gwelwch yn dda. Defnyddiwch ddalen ar wahân, yn yr un modd, os bydd angen.

Os yw'r wybodaeth rydych ei hangen mewn perthynas â cherbyd, eiddo, neu wahanol fath o wybodaeth, cwblhewch yr adran berthnasol dros y dudalen os gwelwch yn dda.

Oeddech chi: *(ticiwch flwch isod)*

Yn un a hysbysodd am drosedd neu ddigwyddiad

Yn dyst i drosedd neu ddigwyddiad

Yn un a ddiodefodd drosedd

Yn un a gafodd ei gyhuddo neu'i gael yn euog o drosedd

Arall – eglurwch os gwelwch yn dda

Dyddiad(au) ac amser(oedd) y digwyddiad	
Y lle digwyddodd y digwyddiad	
Manylion cryno o'r digwyddiad	

Cyn dychwelyd y ffurflen hon - Ydych chi wedi llenwi **POB Adran yn y ffurflen hon?**

Gwiriwch os gwelwch yn dda: Ydych chi wedi cynnwys DWY ddogfen adnabod a llun diweddar ohonoch?
Ydych chi wedi llofnodi a dyddio'r ffurflen?
Ydych chi wedi cynnwys y ffi £10.00 (deg punt)?

Gwybodaeth Ychwanegol:

Canllaw yn unig yw'r nodiadau yma. Mae'r gyfraith wedi'i datgan yn y Ddeddf Diogelu Data, 1998, sydd ar gael yn y Llyfrfa. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol gan:

**Y Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.
Ffôn. 0303 123 1113**

Nodwch os gwelwch yn dda y dylid cyfleu'r cais cyrchu gwybodaeth yma yn uniongyrchol i **Maes Awyr Caerdydd Cyf** (cyfeiriad ar dudalen 2) ac **NID** i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG

Cwblhewch yr Adran yma I GYD os gwelwch yn dda (cyfeiriwch at y blwch 'GWIRIO' uchod).

Cais wedi'i wirio ac yn eglur?

Dyddiad Derbyniwyd y Cais

Gwiriwyd y dogfennau adnabod?

Ffi wedi'i dalu

Manylion y 2 Ddogfen (gweler tud. 3)

Dull Talu

Rhif Derbynneb

Dychwelwyd Dogfennau?

Aelod o staff sy'n llenwi'r Adran hon:

Enw

Lleoliad

Llofnod

Dyddiad

Atodlen F

Arwyddion Gwybodaeth Monitorio TCC

Mae'r dudalen ganlynol yn cynnwys yr arwydd monitorio gwybodaeth TCC sy'n cael ei arddangos ym Maes Awyr Caerdydd;

- i. ger mynedfeydd y derfynfa, ochr y tir ac ochr yr awyr;
- ii. yn ardaloedd y meysydd parcio;
- iii. ger mynedfeydd y maes awyr.

Mae cynllun a lleoliad yr arwyddion hyn wedi'u dewis er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae arwyddion eraill sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth TTC i'w gweld o gwmpas y maes awyr ac ardaloedd y meysydd parcio; mae'r arwyddion hyn at ddibenion;

- i. darparu gwybodaeth i deithwyr a'r cyhoedd, ac
- ii. atal troseddau.

Nid oes gofyn i'r arwyddion ychwanegol hyn gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 1998.



WARNING

Recorded TCC cameras are in operation throughout the airport for operational, safety, security, and law enforcement purposes.

This scheme is operated by Cardiff Airport.
For further information please contact 01446 711111.

RHYBUDD

Mae camerâu teledu cylch cyfyng sy'n recordio ar waith ym mhob man yn y maes awyr at ddibenion gweithredol, diogelwch, a gorfodi'r gyfraith.

Mae'r cynllun hwn yn cael ei weithredu gan Faes Awyr Caerdydd.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â 01446 711111.

Nodiadau:

Nodiadau: